## R. MALDWYN THOMAS a gwr yr inc a'r busnes

# GWYNEDDON

'DOES dim digon o *push* a bywyd ynoch chi', meddai Lewis Lewis, perchennog emporium y Nelson yng Nghaernarfon, gan daflu'r geiriau ar draws Stryd y Bont Bridd at John Davies a oedd yn hofran ar riniog ei siop argraffu.

Roedd Lewis Lewis yn tynnu'n ffyrnig ar un o'i sigars Havana ar y pryd ac yn sefyll ar ei sodlau yn ei gôt dri-chwarter o flaen colofnau Gothig y Nelson.

Dim *push* na bywyd yn John Davies, Gwyneddon? Mi fyddai hi'n anodd iawn i Fethodistiaid a dirwestwyr a Rhyddfrydwyr sir Gaernarfon yn ystod deugain mlynedd ola'r hen ganrif gredu geiriau heriol perchennog y Nelson.

Anodd iawn, ac ystyried Gwyneddon y blaenor blaenllaw yng Nghapel mawr Engedi, Gwyneddon yr areithydd dirwestol cecrus ei ffeithiau, a Gwyneddon y gwleidydd Rhyddfrydol ar lwyfannau cyhoeddus y gogledd orllewin.

Roedd buchedd Gwyneddon fel llawlyfr ar gyfer Anghydffurfwyr y dydd.

* * *

GANWYD John Davies ym Mangor yn 1832, pobl o Gaernarfon oedd ei rieni. Fe'i prentisiwyd yn argraffydd yn swyddfa'r *North Wales Chronicle*, wedyn bu'n ohebydd i'r papur.

Yn ystod y cyfnod hwn bu'n bartner â James Evans, golygydd ifanc *Yr Herald Cymraeg*, gan gyhoeddi'r cylchgronau *Charles o'r Bala* a'r *Aelwyd* rhyngddynt yn ystod 1859-1860.

Penodwyd Gwyneddon yntau'n olygydd papur newydd, pan roddodd John Kenmuir Douglas, perchennog y *N. W. Chronicle* y gwaith o olygu wythnosolyn Cymraeg newydd y swyddfa, sef *Cronicl Cymru* iddo ar Ionawr 6, 1866.

Fe fu'r papur yn llwyddiant o dan ofal Gwyneddon, fe olygodd wythnosolyn an-wleidyddol difyr, i raddau helaeth oherwydd apêl boblogaidd colofnau megis Dyddlyfr Oliver Jenkins a ysgrifennid gan Wyneddon.

Erbyn 1867 yr oedd wedi prynu busnes John Hughes yn 19, y Bont Bridd, Caernarfon, busnes argraffu a gwerthu papurau swyddfa a llyfrau. Yma bu Gwyneddon yn argraffu'r *Goleuad*, 1869-72, a'r *Temlydd Cymreig*, 1873-4.

Gwerthodd y busnes yn niwedd 1874, a'r flwyddyn ganlynol fe'i penodwyd yn rheolwr banc yng Nghaernarfon lle bu hyd ei ymddeoliad yn 1889.

Bu Gwyneddon yn gysylltiedig a'r wasg ar hyd ei oes; y fo oedd un o'r criw a fu'n ysgrifennu erthyglau blaen *Y Genedl Gymreig* o 1877, a pharhaodd ei gyswllt â'r swyddfa hynod hon hyd ei farw ar Ionawr 30, 1904.

* * *

BU'R Mthodistiaid Calfinaidd yn ystyried cyhoeddi papur newydd ar gyfer yr enwad ers blynyddoedd, - Lewis Edwards yn dymuno gweld sefydlu 'a Welsh Methodist Newspaper' yn 1842.

Disgwyl fu raid nes dechrau Chwefror 1869, a gweld y Parchedigion Thomas Levi, Daniel Rowlands a Henry Rees yn cylchlythyru aelodau amlwg yr enwad 'yn galw sylw at y dymunoldeb o gael Newyddiadur wythnosol yn perthyn i gyfundeb y Methodistiaid.'

A heb oedi dim fe gyfarfu'r egin gyhoeddwyr brwd yng Nghroesoswallt ar y deuddegfed o'r un mis, a sefydlu y 'North and South Wales Newspaper Company' gyda chyfalaf o ddwy fil o bunnau wedi'i ddosbarthu yn gyfranddaliadau gwerth dwy bunt yr un. Cwmni preifat oedd hwn, er mai Methodistiaid Calfinaidd oedd ei gyfarwyddwyr.

Saith o weinidogion enwog a phump o leygwyr amlwg oedd y cyfarwyddwyr gwreiddiol, y rhan fwyaf o'r gweinidogion yn berchen rhywfaint o brofiad o'r wasg - dynion fel y Parch John Hughes, Lerpwl (a Chaernarfon wedyn), a oedd wedi bod yn olygydd *Yr Esboniwr* byrhoedlog yng Nghaernarfon yn 1854, ac yn un o dri golygydd cyntaf *Baner Cymru* yn swyddfa Gee yn 1857, a'r Parch Griffith Parry, dyn a oedd wedi bod yn cynnal ei fusnes argraffu a chyhoeddi yng Nghaernarfon hyd 1861, bryd y derbyniodd alwad yn fugail yn Llanrwst. Ei swyddfa argraffu ef a ddaeth yn eiddo i Wyneddon yn 1867.

Ymysg lleygwyr y cwmni yr oedd y profiad busnes mwyaf - dynion fel John Jones, perchennog siop lewyrchus y Corner House yn Llanfyllin, a phwyllgorddyn penderfynol a gwleidyddol yn ei enwad.

Ato ef y byddai Thomas Charles Edwards yn anfon ei erthyglau ar gyfer cylchgrawn ei dad, *Y Traethodydd*, 'a deisyfu ar Mr Jones roi ychydig o *finishing strokes*' ar ei waith. Ond prin iawn oedd profiad perchennog y 'Corner House' o waith cyhoeddi.

Prin iawn hefyd oedd profiad Bryn Roberts, Bryn Adda, Bangor, o'r byd hwnnw. Twrnai ifanc craff ar ddechrau'i yrfa gyfreithiol oedd o, gŵr trwyadl, clogyrnaidd, sych a cheidwadol ei Ryddfrydiaeth.

* * *

Y GŴR mwyaf dramatig ei fuchedd o'r dynion busnes hyn oedd Griffith Jones, Bangor Uchaf, - y mae hanes ei yrfa yn debyg i foes wers Fictoriaidd ar rinweddau sobrwydd.

O Eifionydd y daeth o i Fangor, ac erbyn canol y chwedegau yr oedd Griffith Jones yn fasnachwr cyfforddus iawn ei fyd, ei siop a'i warws i lawr yn y ddinas, ac yntau a'i wraig Bridgetta Dorothea, yn byw yn villa'r Fronheulog ar lechweddau balmaidd Bangor Uchaf, uwchben mwrllwch a sŵn y strydoedd masnachol.

Roedd lletygarwch villa'r Fronheulog yn ddihareb ymhlith gweinidogion yr Hen Gorff pan fyddai'r rhain yn cael y gwahoddiad mawr i bregethu yng nghapel y Tŵr Gwyn.

Yma, yn y Tŵr Gwyn, yr oedd Griffith Jones yn flaenor a thrysorydd cronfa ddyledion yr achos, ac yn ddiau fe gyfrannai Bridgetta Dorothea a'i gŵr yn gyhoeddus hael at goffrau'r capel.

Ond yn fuan ar ôl dechrau cyhoeddi'r *Goleuad*, fe welwyd newid yn ymarweddiad blaenor balch y Fronheulog. Fe aeth i roi llai o sylw i Bridgetta Dorothea, a threulio mwy a mwy o'i amser yng nghwmni 'merched cylchynog addurniedig' palmentydd a pharlyrau Bangor Uchaf.

Fe aeth i sleifio i lawr i orsaf y trên a dechrau ymweld â Llundain ar deithiau dirgel.

Aeth pethau o ddrwg i waeth. Roedd ei le yn wag bellach yn sêt fawr y Tŵr Gwyn, dechreuodd yfed yn drwm. Yn naturiol fe lithrodd ei fusnes ar lethr y goriwaered.

Yng nghanol pob math o sibrydion ar balmentydd gwenwynig Bangor Uchaf, fe alwodd swyddogion pryderus y Tŵr Gwyn yn Fronheulog un min nos, a churo'n daer ar ddrysau'r villa, er mwyn cael cyfrif ariannol am gronfa'r achos gan Griffith Jones.

Curo hir, curo taer, ond curo ofer. Roedd tri chan punt wedi diflannu o goffrau'r capel, ac nid oedd gan Griffith Jones unrhyw fodd i'w talu'n ôl.

Bu ei gwymp yn fawr. Diarddelwyd ef o'r eglwys a bellach roedd masnachwr balch villa'r Fronheulog i'w weld yn baglu'n feddw yng nghwterydd y ddinas. Bu farw'n ddinod a diymgeledd ddiwedd Chwefror 1875. Ni chyhoeddwyd yr un gair o goffa amdano yn *Y Goleuad*.

Yn ei ddydd yr oedd Griffith Jones yn enghraifft o'r lleygwr cefnog a fyddai'n gaffaeliad i'r cwmni. Ond fel arall y bu pethau.

* * *

CYHOEDDWYD y rhifyn cyntaf o'r *Goleuad* ar Hydref 30, 1869 yng Nghaernarfon, ac ymddangosodd yno'n wythnosol hyd Hydref 26, 1872, pan symudwyd y papur i swyddfa D. H. Jones yn Nolgellau. Dwy geiniog oedd ei bris ar y cychwyn.

Roedd gan Wyneddon gytundeb am dair blynedd yn ei boced yn rhoi'r gwaith argraffu iddo ef, ac yn caniatau iddo weithredu fel cyhoeddwr ar ran y cwmni.

Yn anochel, yr oedd hyn yn golygu gofalu am bopeth yn y swyddfa, - gosod y papur, ei bacio a'i ddosbarthu.

Yn ôl y cytundeb, a arwyddwyd ar 14 Medi 1869, yr oedd yr argraffwyr i dderbyn dwy bunt ar bymtheg am bob tair mil o gopiau a werthid, a dwy bunt a phymtheg swllt am bob mil o gopiau a werthid yn ychwanegol at y swm hwn.

Mae'n amlwg nad oedd gan Wyneddon mo'r offer i argraffu miloedd o dudalennau yn gyflym ac effeithiol, a chafodd addewid am £130 gan y cyfarwyddwyr ar gyfer prynu 'peiriant' newydd, - roedd o hefyd i gael y cynnig cyntaf ar brynu'r cyfryw 'beiriant' ar ddiwedd tair blynedd y cytundeb, os mai hynny fyddai dymuniad y cyhoeddwyr.

Gwyneddon hefyd oedd y golygydd cyntaf a pharhaodd yn y gwaith hwn hyd 17 Mehefin 1871. Cyflogwyd ef am ddwy bunt yr wythnos gan y cyfarwyddwyr, roedd i ofalu am gynnwys cyffredinol y papur.

Yr oedd yr erthyglau golygyddol yn agwedd arbennig iawn ar gynnwys *Y Goleuad* yn ystod y misoedd hyn, ac fe gyhoeddid tair neu bedair erthygl faith yn y papur bob wythnos.

Yn ôl copi o ffeil swyddfa'r papur sydd yn fy meddiant, fe ellir gweld bod rhai o gyfarwyddwyr y cwmni wedi ysgrifennu nifer sylweddol o'r erthyglau hyn, ac i'r Parch Daniel Rowlands fod yn gefn mawr i'r golygydd gan gyfrannu nifer mawr o erthyglau blaen drwy gydol y cyfnod hwn.

Mae hi'n amlwg o'r ffeil hefyd fod Gwyneddon yn ysgrifennu llawer iawn ei hun yn ystod 1870-71.

Gwahoddwyd Lewis Edwards i ysgrifennu rhai o'r erthyglau blaen, a bu cynnwrf sylweddol ar ôl cyhoeddi ei erthygl gyntaf, Y Pregethwr i'r Bwystfilod, (13 Tach. 1869, 8, gol. 1.)

Efallai mai'r erthygl flaen a achosodd y cythrwfl mwyaf un yn ystod y cyfnod cynnar hwn oedd Ficer Caernarfon Ar Dduwinyddiaeth (sic) y Cymry, erthygl ysgrifennwyd gan Thomas Charles Edwards.

Bu brwydro gloyw â

I dud 19